



# A Hefyd Angylion - CA3/4

## Tasg 1: Ysgrifennu atgofion

Ydych chi'n cofio actio mewn drama neu gymryd rhan mewn drama neu gyngerdd pan oeddech chi'n fach?

TASG: Ysgrifennwch ddarn byr yn disgrifio sut roeddech chi'n teimlo.



# A Hefyd Angylion –CA3/4

## Tasg 2: Trafod

Mae'r gair 'angylion' yn cael ei ailadrodd yn y gerdd. Mae'r cyfeiriad cyntaf yn y pennill cyntaf at yr angylion yn y ddrama.



Mae'r ail gyfeiriad at angylion yn digwydd ar ddiwedd y gerdd.

TASG: Mewn parau, trafodwch a ydych chi'n meddwl bod Gwyn Thomas yn cyfeirio at fath gwahanol o angylion erbyn y diwedd?

Os ydyw, beth yw ystyr hyn i chi?



# A Hefyd Angylion –CA3/4

## Tasg 3: Ysgrifennu – arddull

Mae Gwyn Thomas yn fardd sy'n arfer cael ei gysylltu ag arddull lafar, uniongyrchol. Ond hefyd, mae llawer o enghreifftiau o arddull gynnil, gyfoethog yn ei waith.

Un enghraifft yn y gerdd hon yw: 'Doethion... diddeall'.

Gellid dweud bod hwn yn enghraifft o eironi yn ogystal â chyferbyniad.

**TASG:** Ysgrifennwch baragraff yn dweud pam mae'r dyfyniad hwn yn effeithiol yng nghyd-destun y gerdd.





# A Hefyd Angylion – CA3/4

## Tasg 4: Trafod a chymharu

Edrychwch ar y tri phennill. Ystyriwch beth yw eu neges.

Doethineb gorau yn y byd  
Yw cymryd cyngor da mewn pryd,  
Ni thâl ceisio help y doctor  
A'r gŵr yn myned ar ei elor.

Nid yw bywyd dyn ddim mwy  
Nag ysbaid munud fach neu ddwy,  
Am hyn ceisia'n glaf neu'n iach  
Wir ddefnyddio'r ysbaid fach.

Ni cheir gweled mwy o'n hôl  
Nag ôl neidr ar y ddôl,  
Neu ôl llong aeth dros y tonnau,  
Neu ôl saeth mewn awyr denau.  
(Ficer Prichard)

TASG: Trafodwch yn eich grwpiau pa gyngor mae'r penillion hyn yn ei roi i ni, yn eich barn chi?

Oes mwy nag un neges yn y penillion?

Oes tebygrwydd rhwng y rhain a cherdd Gwyn Thomas?



# A Hefyd Angylion - CA3/4

## Tasg 5: Ysgrifennu portread

Mae'r gerdd yn cyfeirio at ddwy genhedlaeth – y genhedlaeth hŷn a'r genhedlaeth iau. Mae'n bosib, erbyn y byddwch chi'n rhieni eich hunain, y byddwch chi, fel yr wyrion yn y gerdd, wedi colli aelod agos o'ch teulu.

TASG: Ysgrifennwch bortread o aelod o'ch teulu sy'n hŷn na chi sydd wedi creu argraff arnoch chi.

Rhan bwysicaf y dasg yw cadw'r portread yn saff fel y gallwch ei ddangos i'ch plant ryw ddydd!

Os ydych chi eisiau rhagor o fanylion am sut i lunio portread, cliciwch [YMA](#).





# A Hefyd Angylion – CA3/4

## Tasg 6: Recordio cyfweiliad

Cyfweiliad!

Meddyliwch pwy yw aelod hynaf eich teulu. Trafodwch yn eich grwpiau pa gwestiynau y byddech chi'n gallu eu gofyn iddo/iddi nhw er mwyn ffilmio neu recordio'r cyfweiliad.

Rhai syniadau:

- Beth am holi am eu hatgofion o'r Nadolig?
- Oedden nhw wedi cymryd rhan mewn drama Nadolig?
- Beth yw eu cof cyntaf?
- Pa gemau roedden nhw'n eu chwarae pan oedden nhw'n blant?

TASG: Ewch ati i ffilmio/recordio cyfweiliad ag aelod o'r teulu.



# A Hefyd Angylion – CA3/4

## Tasg 7: Neges Drydar

TASG: Beth yw neges y gerdd hon? Ceisiwch grynhoi'r neges i neges drydar (hyd at 280 nod ar y cyfrifiadur).